**Yr Ysgoloriaethau Chwaraeon**
**Telerau ac Amodau**

1. Mae Ysgoloriaethau Chwaraeon yn agored i ymgeiswyr israddedig ac ôl-raddedig newydd o'r DU sy'n gwneud cais i astudio'n llawn amser ym Mhrifysgol Aberystwyth. Rhaid i geisiadau ddod i law erbyn 30 Mehefin a rhaid i Aberystwyth fod yn ddewis Cadarn o Brifysgol.
2. Disgwylir i'r myfyrwyr gyfrannu at un o Glybiau Chwaraeon Undeb y Myfyrwyr ac fel arfer byddai disgwyl iddynt gynrychioli'r Brifysgol yn y gamp y cawsant yr Ysgoloriaeth amdani. Mewn rhai amgylchiadau efallai na fyddai'r amod hwn yn briodol neu'n bosibl, a gellid ei eithrio trwy gytundeb Cadeirydd y Panel Dyfarnu. Gofynnir i ddeiliaid Ysgoloriaethau gadarnhau eu bod ar gael i gynrychioli'r Brifysgol pan fyddant yn derbyn eu gwobr.
3. Bydd gan ddeiliad yr Ysgoloriaeth gyfle i adolygu eu cynnydd gyda Chydgysylltydd Gweithgareddau'r Myfyrwyr ac efallai y bydd gofyn iddynt gadw dyddiadur hyfforddi i hwyluso'r broses adolygu. Gweinyddir y broses asesu a chynnydd gan Ysgrifennydd y Panel Dyfarnu, ac fe weinyddir y broses adolygu gan Fentor yr Ysgoloriaethau Chwaraeon.
4. Telir yr Ysgoloriaeth mewn 2 randaliad cyfartal yn ystod pob blwyddyn y mae'r myfyriwr yn gymwys. Bydd y taliad cyntaf yn cael ei wneud yn mis Rhagfyr ac yr ail yn mis Mawrth.
5. Ni wneir taliadau yn ystod blwyddyn dramor, blwyddyn mewn gwaith, blwyddyn rhyng-gwrs, blwyddyn sy'n cael ei hailwneud, ac ati.
6. Ar gyfer myfyrwyr y dyfarnwyd yr ysgoloriaeth hon iddynt cyn Mynediad 2024, mae llety gwarantedig mewn preswylfa Brifysgol yn amodol ar wneud cais am lety o fewn y dyddiadau a hysbysebir gan y Swyddfa Llety bob blwyddyn.
7. Bydd y myfyrwyr yn cynorthwyo i hyrwyddo proffil chwaraeon y Brifysgol ac yn cynorthwyo â chynlluniau eraill sy'n cynnwys hyrwyddo'r Brifysgol e.e. Dyddiau Agored, Dyddiau Ymweld, gweithgareddau Ehangu Cyfranogiad, lle bo hynny'n briodol. Caiff y myfyrwyr eu talu am oriau y byddant yn gweithio ar y raddfa safonol i fyfyrwyr.
8. Dylai myfyrwyr sy'n dal Ysgoloriaeth gytuno i ymddwyn mewn modd sy'n gweddu i gynrychiolwyr y Brifysgol, a cheisio cynnal neu wella eu perfformiad chwaraeon. Rhaid i ddeiliaid Ysgoloriaethau hefyd roi gwybod i'r Mentor Ysgoloriaeth Chwaraeon os bydd amgylchiadau yn newid mewn unrhyw fodd a fydd yn golygu na allant barhau â'u dewis gamp yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol.
9. Ni ellir dal Ysgoloriaethau Chwaraeon gydag Ysgoloriaeth Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth.
10. Mae'r gwobrau'n daladwy i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd lawn yn unig (nid i'r sawl sydd wedi trosglwyddo i flynyddoedd 2 neu 3 o'r cwrs).
11. Bydd taliadau i fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl dros dro yn ailgychwyn o ddechrau'r tymor llawn nesaf pan ailgychwynnant ar eu hastudiaethau (ni fydd unrhyw daliadau sy'n weddill o'r tymor pan dynnant yn ôl yn cael eu talu).
12. Mae'n bwysig cofio, os y byddwch mewn dyled i'r Brifysgol, y bydd taliadau'r Ysgoloriaeth neu Fwrsariaeth yn cael eu dal yn ôl a'u defnyddio yn erbyn y ddyled.
13. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u hastudiaethau am byth cyn Rhagfyr 1af, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio'r cyfan o'r taliad cyntaf yn ôl. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl am byth rhwng Rhagfyr 1af a Mawrth 2il, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio yn ôl y cyfan o'r ail daliad. O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r symiau yn cael eu had-dalu, mae'n bosibl y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion y Brifysgol.

14. Mae'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â'u hastudiaethau yn Aberystwyth yn unig, ac nid yw'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni breiniol neu raglenni wedi'u dilysu a gyflwynir gan bartneriaid.
15. Bydd cynnydd academaidd anfoddhaol, neu gynnydd anfoddhaol yn unrhyw un o'r meysydd hyn, heb achos da, yn arwain at derfynu'r dyfarniad.
16. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i newid neu ddileu unrhyw un o'n Hysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau Ariannol cyfredol.
17. Bydd methu â bodloni unrhyw un o'r gofynion uchod yn arwain at dynnu'r Ysgoloriaeth yn ôl.